**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

—

**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

—

**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

05 Chwefror 2024

Ymchwiliad dilynol i ofal plant a chyflogaeth rhieni

Annwyl Jenny,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Ionawr. Fel Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, byddwn yn croesawu'n fawr y cyfle i fod yn rhan o'ch ymchwiliad i ofal plant a chyflogaeth rhieni. Fel y dywedasoch yn eich llythyr, mae dull cydweithredol y Pwyllgor ar faterion trawsbynciol wedi bod yn ddull cadarnhaol ac adeiladol iawn yn y gorffennol.

Fel y gwyddoch, mae gofal plant a chyflogaeth rhieni wedi cael ei godi fel mater yn ystod ein hymchwiliad i fynediad plant a phobl ifanc anabl at ofal plant ac addysg.

Fel rhan o'r broses o gasglu tystiolaeth, rydym wedi cwrdd â rhieni, gofalwyr a sefydliadau, sydd wedi pwysleisio ei bod yn her i blant a phobl ifanc ag anableddau a/neu anghenion ychwanegol sicrhau a chynnal cyflogaeth â thâl. Mae nodiadau cryno o'r cyfarfodydd hyn ar gael ar y dudalen we ar gyfer yr ymchwiliad, ynghyd â thrawsgrifiadau o'r holl gyfarfodydd a gynhaliwyd, a'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, a allai fod yn ddefnyddiol i chi.

Byddwch hefyd yn ymwybodol ein bod ni wedi ysgrifennu at Weinidog yr Economi ar y mater hwn ac wedi cael ymateb yn ddiweddar.

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch am yr uchod, dylech gysylltu â'r tîm Clercio.

Edrychaf ymlaen yn fawr at weithio gyda'ch Pwyllgor eto, ac at gael y wybodaeth berthnasol am y cyfarfod.

Yn gywir,

Jayne Bryant

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.